Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Llanfihangel-Y-Creuddyn
Llanfihangel-Y-Creuddyn
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 4LA

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 21/03/2017**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gymunedol Llanfihangel y Creuddyn ym mhentref Llanfihangel y Creuddyn ac mae'n cael ei chynnal gan awdurdod lleol Ceredigion.

Mae 29 o ddisgyblion rhwng 4 ac 11 oed ar y gofrestr, mewn dau ddosbarth oed cymysg. Daw 41% o'r disgyblion o gartrefi lle siaradir y Gymraeg. Mae tua 17% yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n ychydig yn llai na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r ysgol wedi dynodi 37% o'i disgyblion yn rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys ychydig iawn â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Ychydig iawn o ddisgyblion ddaw o gefndir ethnig lleiafrifol neu gymysg.

Mae'r pennaeth yn ei swydd ers Ionawr 2003 a chafodd yr ysgol ei harolygiad diwethaf ym mis Mai 2011.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gymunedol Llanfihangel-Y-Creuddyn yn 2016-2017 yw £5,224. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Ngheredigion yw £8,440 a'r lleiafswm yw £3,123. Mae Ysgol Gymunedol Llanfihangel-Y-Creuddyn yn safle 11 o'r 47 ysgol gynradd yng Ngheredigion o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yno
- rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu medrau llafar i safon uchel ac yn cyfleu eu hunain yn ysgrifenedig yn glir mewn ystod o ffurfiau ar draws y cwricwlwm
- rhan fwyaf y disgyblion yn gweithio'n annibynnol ac yn gwneud dewisiadau drostynt eu hunain yn llwyddiannus
- ymddygiad bron pob disgybl o fewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol yn arbennig o dda
- profiadau dysgu diddorol ac ysgogol yn cymell diddordeb disgyblion i ddysgu yn llwyddiannus
- athrawon yn datblygu Cymreictod y disgyblion mewn ffordd naturiol a chynhwysol, sy'n meithrin parch at yr iaith a'u hardal
- ansawdd y gofal, cymorth a'r arweiniad yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau a lles y disgyblion
- y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- arweinwyr yn darparu arweinyddiaeth gadarn ac effeithiol sydd â ffocws clir ar sicrhau safonau uchel a lles disgyblion
- staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac yn eu cyflawni'n effeithiol
- llywodraethwyr yn gefnogol iawn i waith yr ysgol, ac yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau yn effeithiol iawn
- gan lywodraethwyr wybodaeth sicr am yr ysgol sy'n eu galluogi i herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn effeithiol
- prosesau hunanarfarnu'n effeithiol ac yn sicrhau bod gan arweinwyr ddealltwriaeth gywir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella
- yr ysgol yn cynllunio'n effeithiol iawn ar gyfer gwireddu blaenoriaethau sy'n deillio o'r adroddiad hunanarfarnu
- perthynas gref rhwng yr ysgol a'r cartref yn sicrhau bod rhieni yn cymryd rôl weithredol yn addysg eu plant
- cydweithio effeithiol rhwng yr ysgol ac asiantaethau arbenigol allanol, sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau, lles a phrofiadau dysgu disgyblion

## Argymhellion

A1 Gwella medrau sillafu disgyblion cyfnod allweddol 2

A2 Sicrhau cyfleoedd addas i ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu disgyblion

A3 Sicrhau cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion wella'u gwaith yn dilyn adborth marcio athrawon

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Wrth gychwyn yn yr ysgol, mae medrau sylfaenol mwyafrif y disgyblion yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob un yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Maent yn datblygu'n ddysgwyr hyderus ac yn defnyddio'u medrau meddwl yn llwyddiannus i ddatrys problemau mewn gwersi. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n astud ac yn sgwrsio'n hyderus am eu gwaith. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau llafar yn effeithiol iawn ac yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa'n llwyddiannus mewn sefyllfaoedd amrywiol. Maent yn hyderus wrth drafod gyda chyfoedion ac oedolion, gan fynegi eu syniadau'n glir wrth ymgymryd â gwahanol weithgareddau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn siarad yn ddeallus ac yn ymateb yn synhwyrol mewn trafodaethau dosbarth. Mae ganddynt ystod dda o eirfa ac yn defnyddio cystrawen naturiol wrth siarad.

Mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu'n dda. Mae'r disgyblion ieuengaf yn adnabod llythrennau a seiniau yn gynnar ac yn dechrau adeiladu geiriau'n effeithiol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn datblygu'n ddarllenwyr medrus, gan ddangos mwynhad a phleser wrth ddarllen. Maent yn darllen gyda chywirdeb a rhuglder, gyda llawer yn rhoi sylw i'r atalnodi gan amrywio goslef llais a chyflymder. Mae'r rhan fwyaf yn trafod eu llyfrau'n hyderus ac yn dangos dealltwriaeth dda o ddigwyddiadau a'u hoff gymeriadau. Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn datblygu eu medrau'n llwyddiannus ac yn mwynhau darllen. Maent yn trafod eu hoff awduron yn aeddfed, gan gynnig rhesymau dros eu dewisiadau. Mae'r rhan fwyaf yn darllen yn rhugl ac yn amrywio goslef y llais yn effeithiol er mwyn dal sylw'r gwrandawyr. Maent yn darllen yn ddeallus, gan drafod cynnwys a mynegi barn yn fedrus.

Mae medrau ysgrifennu y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol. Mae llawer o ddisgyblion ieuengaf y Cyfnod Sylfaen yn ysgrifennu llythrennau a geiriau yn fuan ar ôl cychwyn yn yr ysgol. Erbyn Blwyddyn 2, mae bron pob un yn ysgrifennu at ddibenion gwahanol gan ddefnyddio brawddegau synhwyrol, sillafu geiriau cyfarwydd yn gywir ac atalnodi yn unol â'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed a'u gallu. Mae'r rhan fwyaf yn dechrau amrywio brawddegau yn llwyddiannus i greu effaith ac yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa, gan gynnwys ansoddeiriau, i gyfoethogi'r gwaith. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu ar draws y cwricwlwm yn llwyddiannus. Maent yn ysgrifennu'n effeithiol at wahanol bwrpasau ac ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd. Enghraifft dda o hyn yw ysgrifennu sgript yn eu gwersi hanes i gofnodi sgwrs Grace Darling a'i thad. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n glir ac yn ddiddorol gan ddefnyddio ansoddeiriau a chymariaethau diddorol i gyfoethogi'r darnau. Maent yn defnyddio paragraffau'n addas ac yn atalnodi'n

llwyddiannus ar y cyfan. Fodd bynnag, mae ychydig o ddisgyblion yn ansicr ar adegau wrth sillafu geiriau anghyfarwydd. Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu llawysgrifen daclus ac yn dangos balchder yng nghyflwyniad eu gwaith.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio a chymhwyso eu medrau rhifedd yn dda mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Erbyn diwedd y cyfnod, maent yn datrys problemau rhif syml yn llwyddiannus, defnyddio arian mewn sefyllfa pob dydd, casglu a chofnodi data mewn ffurf graff bar a defnyddio unedau mesur priodol. Er enghraifft, maent yn cymhwyso'u medrau rhif yn dda i gyfri cyfanswm eitemau ac yn rhoi newid allan o bum punt. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio ystod o strategaethau i ddatrys problemau mwy cymhleth yn llwyddiannus. Maent yn dadansoddi data, a datrys problemau ffracsiynau a chanrannau, yn ogystal â mesur cynhwysedd ac arwynebedd yn briodol. Mae'r rhan fwyaf yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn effeithiol ar draws ystod o bynciau. Enghraifft dda o hyn yw defnyddio'u gwybodaeth am amser a mesur er mwyn cofnodi taith y côr i Ffrainc mewn ffurf graff.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n briodol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ystod addas o feddalwedd a chyfarpar yn briodol mewn gwahanol feysydd dysgu. Er enghraifft, maent yn defnyddio rhaglenni pwrpasol ar gyfer ysgrifennu storïau a gwneud lluniau, gwneud graff a chreu dilyniant o gyfarwyddiadau ar gyfer rheoli tegan rhaglenadwy. Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn defnyddio rhaglenni addas i gyfathrebu gwybodaeth, er enghraifft i greu poster noson tân gwyllt a chyflwyniad ar fywyd arweinwyr yr Ail Ryfel Byd. Maent yn dechrau creu graffiau a threfnu data gan ddefnyddio taenlenni. Fodd bynnag, nid yw medrau rhan fwyaf y disgyblion wedi datblygu'n ddigonol i ddefnyddio'r meddalwedd hyn yn ddigon effeithiol i gefnogi'u gwaith ar draws y cwricwlwm. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n ddiogel ar y rhyngrwyd.

Mae nifer y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn isel iawn, felly nid yw cymariaethau o'u perfformiad yn erbyn perfformiad disgyblion eraill yn ddibynadwy.

Yn gyffredinol, nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng cyflawniad bechgyn a merched.

Dros y blynyddoedd diwethaf, roedd nifer cymharol fach o ddisgyblion yn y grwpiau blwyddyn ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 gan yr ysgol yn aml. O ganlyniad, nid yw'r data'n ddibynadwy a gall effeithio'n sylweddol ar berfformiad meincnod yr ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg ac o gymharu â chyfartaleddau cenedlaethol. Mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn gosod yr ysgol yn gyson yn y 25% uchaf dros y pedair blynedd ddiwethaf o'i gymharu ag ysgolion tebyg.

Mae perfformiad ar y deilliant uwch yn y Cyfnod Sylfaen dros yr un cyfnod yn gosod yr ysgol gan amlaf yn y 25% uchaf. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad ar y lefel uwch yn fwy amrywiol.

**Lles: Da**

Mae bron pob un disgybl yn teimlo'n hapus a diogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os ydynt yn poeni am rywbeth. Mae eu hymddygiad o fewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol yn arbennig o dda, sy'n cyfrannu at greu awyrgylch dysgu effeithiol.

Mae bron pob un disgybl ar draws yr ysgol yn cydweithio'n dda. Maent yn dangos diddordeb yn yr hyn y maent yn ei ddysgu ac yn cadw at dasgau'n llwyddiannus. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u targedau ac yn deall pa mor dda maent yn ei wneud a sut i wella eu gwaith. Mae bron pob un yn cyfrannu'n effeithiol wrth gyd-gynllunio gwaith y tymor ac mae'r rhan fwyaf yn gweithio ar dasgau'n annibynnol ac yn gwneud dewisiadau drostynt eu hunain yn llwyddiannus. O ganlyniad, maent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y safonau maent yn eu cyflawni.

Mae medrau personol, cymdeithasol a bywyd disgyblion yn datblygu'n llwyddiannus ac mae gan y rhan fwyaf ymwybyddiaeth dda o sut i gadw'n ddiogel. Maent yn ofalgar iawn o'i gilydd ac yn dangos parch tuag at eu cyfoedion ac oedolion. Mae bron pob un yn deall yr angen i gymryd rhan mewn ymarfer corff ac i fwyta'n iach.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth dda o'u rôl yn y gymuned leol. Maent yn manteisio ar gyfleoedd gwerthfawr i berfformio mewn cyngherddau a gwasanaethau, er enghraifft perfformio mewn cyngerdd i ddathlu penblwydd yr ysgol yn 175 oed. Mae aelodau'r cyngor ysgol yn weithgar ac yn cynrychioli barn y disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau pwysig o fywyd yr ysgol, er enghraifft cyfrannu at bolisi gwrth-fwlio a chadarnhau rheolau'r ysgol.

Mae bron pob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon ac mae presenoldeb y disgyblion yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o'i gymharu ag ysgolion tebyg am dair allan o'r pedair blynedd diwethaf.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang a chytbwys o brofiadau dysgu i'r holl ddisgyblion sydd yn cyfoethogi eu haddysg yn llwyddiannus. Mae hyn yn sicrhau ei bod yn bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol. Cynllunnir profiadau cyfoethog ac ysgogol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd tu fewn a thu allan i'r dosbarth. Adeiladir ar hyn yn llwyddiannus yng nghyfnod allweddol 2 gan sicrhau bod disgyblion yn datblygu medrau dysgu annibynnol gwerthfawr. Mae'r ymweliadau addysgol a'r amrywiaeth dda o gyfleoedd allgyrsiol yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion yn llwyddiannus

Mae cynlluniau tymor hir yn sicrhau bod cynnwys y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd wedi ei gynllunio a'i blethu'n effeithiol i weithgareddau ar draws y cwricwlwm. Mae darpariaeth ar gyfer datblygu medrau llafar disgyblion yn gryfder. Fodd bynnag, nid yw cynlluniau ar gyfer datblygu medrau TGCh ar draws yr ysgol wedi sefydlu'n ddigon cadarn a phrin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau mewn gwersi.

Mae'r ysgol yn datblygu Cymreictod y disgyblion mewn ffordd naturiol a chynhwysol sy'n meithrin parch at yr iaith a'u hardal. Mae'r Cwricwlwm Cymreig wedi ei blethu'n briodol i agweddau'r cwricwlwm. Mae'r ysgol yn hyrwyddo diwylliant a hanes Cymru yn effeithiol trwy ddarparu amrywiaeth o weithgareddau sy'n cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae disgyblion yn ymweld â'r Llyfrgell Genedlaethol ac amgueddfeydd lleol fel rhan o'u gwaith ar yr ardal.

Mae darpariaeth ar gyfer hybu dealltwriaeth disgyblion o faterion sy'n ymwneud â datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn effeithiol. Drwy weithgareddau'r cwricwlwm a'r cyngor eco, mae disgyblion yn dysgu am faterion pwysig fel arbed ynni, ailgylchu a garddio. Mae disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu'u medrau llythrennedd a rhifedd yn ogystal â dysgu am fyd busnes a chynaliadwyedd, er enghraifft trwy weithio gyda chwmni pensaer lleol er mwyn cynllunio ac adeiladu tŷ gwydr allan o boteli plastig.

**Addysgu: Da**

Mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu diddorol ac ysgogol sy'n cymell diddordeb disgyblion i ddysgu yn llwyddiannus. Mae ganddynt wybodaeth bynciol dda ac yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau addysgu effeithiol i ddiwallu anghenion bron pob un disgybl. Maent yn cysylltu eu gwersi'n effeithiol â dysgu blaenorol ac yn sicrhau gan amlaf bod amseriad priodol i wersi. Mae'r holl staff yn modelu iaith yn glir a chywir, sy'n cyfrannu'n dda at gywirdeb llafaredd y disgyblion. Mae athrawon a chymorthyddion yn cydweithio'n effeithiol iawn ac mae'r berthynas gadarn sy'n bodoli rhwng staff a disgyblion yn creu ethos cyfeillgar a gofalgar. Maent yn holi'n fedrus i ymestyn dealltwriaeth disgyblion a datblygu eu medrau meddwl yn effeithiol. O ganlyniad, mae'r ysgol yn parhau i gynnal safonau da dros gyfnod hir ac mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu.

Mae athrawon yn gwneud defnydd addas o strategaethau asesu ar gyfer dysgu ar draws yr ysgol. Maent yn marcio gwaith disgyblion yn bwrpasol gan nodi beth y maent wedi ei gyflawni'n dda a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella. Mae disgyblion yn cael cyfleoedd priodol i weithredu ar yr adborth hwn trwy gywiro darnau o'u gwaith yn y dosbarth, er enghraifft trwy gywiro sillafu ac atalnodi. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ymestyn eu gwaith ysgrifenedig yn dilyn yr adborth hwn. Mae disgyblion yn derbyn cyfleoedd addas i werthuso'u gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu dealltwriaeth o'r camau nesaf yn eu dysgu.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cynhwysfawr a defnyddiol ar gyfer asesu, monitro a chofnodi cynnydd disgyblion yn gywir. Mae athrawon yn defnyddio data'n dda i olrhain cynnydd y disgyblion ac i ddadansoddi canlyniadau profion cenedlaethol er mwyn darparu cefnogaeth briodol ar gyfer grwpiau penodol o ddisgyblion.

Mae rhieni'n derbyn gwybodaeth werthfawr am gynnydd eu plant, gan gynnwys adroddiadau blynyddol cynhwysfawr sy'n cynnwys targedau clir ar gyfer gwella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r ysgol yn gymuned ofalgar sy’n hyrwyddo datblygiad moesol, ysbrydol, diwylliannol a chymdeithasol ei disgyblion yn effeithiol. Mae ansawdd y gofal, cymorth ac arweiniad yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau a lles y disgyblion. Atgyfnerthir hyn yn effeithiol trwy gydweithio ag asiantaethau allanol, gan gynnwys yr heddlu, sy’n darparu cyngor priodol fel sut i gadw’n ddiogel ar y rhyngrwyd.

Mae darpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol o ansawdd da ac yn golygu bod disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o werthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch tuag at eraill. Mae llwyddiant y ddarparieth hon yn glir yn y ffordd maent yn ymdrin â’i gilydd o gwmpas yr ysgol. Mae’r ethos o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn gofalu am y rhai ieuengaf yn nodwedd gref. Mae’r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae staff yn nodi unrhyw anghenion dysgu ychwanegol yn fuan ac yn sicrhau cymorth yn briodol. Mae’r ysgol yn cydweithio â nifer o asiantaethau arbenigol er mwyn creu cynlluniau addysg perthnasol sy’n cael eu rhannu a’u hadolygu’n rheolaidd gyda rhieni. Mae staff yn monitro cynnydd disgyblion yn gyson ac yn effeithiol gan baratoi adroddiadau addysgiadol ar gyfer rhieni. Mae’r trefniadau hyn yn arwain at ymyraethau pwrpasol er mwyn bodloni anghenion penodol disgyblion yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae’r ysgol yn gymuned gynhwysol, hapus a chyfeillgar lle mae disgyblion yn cael eu trin yn gyfartal. Mae hyn yn seiliedig ar werthoedd sy'n hyrwyddo parch a gofal at eraill yn llwyddiannus. Mae'r ysgol yn cynnig mynediad cyfartal i'r cwricwlwm ac i weithgareddau allgyrsiol i bob disgybl.

Er gwaetha’r hen adeilad, mae’r ysgol yn gwneud y gorau o’i hamgylchedd ffisegol. Mae’r amgylchedd allanol yn cynnwys ardaloedd pwrpasol sydd wedi’u datblygu’n llwyddiannus ar gyfer cefnogi profiadau dysgu disgyblion, gan gynnwys y Cyfnod Sylfaen. Gwneir defnydd effeithiol o gae cyfagos er mwyn cefnogi’r ddarpariaeth trwy weithgareddau chwaraeon ac agweddau eraill o’r cwricwlwm, Er enghraifft, mae’r disgyblion ynghyd â’r rhieni wedi adeiladu tŷ gwydr allan o ddeunyddiau ailgylchu ar y cae fel rhan o brosiect y cyngor eco. Ceir cyflenwad da o adnoddau o ansawdd uchel sy’n cefnogi dysgu’r disgyblion yn llwyddiannus.

Mae'r adeilad, y buarth gyferbyn a’r ysgol mewn cyflwr da, yn ddiogel ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n raenus. Mae arddangosfeydd yn amlygu gweithgareddau, diwylliant ac ethos yr ysgol yn briodol.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth profiadol yn adnabod yr ysgol a'i chymuned yn dda iawn. Mae'n darparu arweinyddiaeth gadarn ac effeithiol sydd â ffocws clir ar sicrhau safonau uchel a lles disgyblion. Mae'n rhannu'i weledigaeth gyda staff, disgyblion, rhieni a llywodraethwyr yn llwyddiannus iawn. O ganlyniad, mae ei hymroddiad i sicrhau gwelliant yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth a safonau disgyblion dros gyfnod hir. Mae hyn yn gryfder amlwg yn yr ysgol ac mae'r ethos cryf o waith tîm yn cyfrannu'n dda at gyflawni amcanion yr ysgol.

Mae pob aelod staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac maent yn eu cyflawni'n llwyddiannus. Mae arweinwyr ac athrawon yn cyfrannu'n effeithiol i sicrhau gwelliant drwy gymryd rhan weithredol yng ngweithdrefnau monitro'r ddarpariaeth a deilliannau disgyblion. Mae cyfarfodydd staff yn canolbwyntio'n briodol ar flaenoriaethau gwella a safonau. O ganlyniad, mae'r staff yn ymwybodol o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn sicrhau gwelliant.

Mae'r ysgol yn cyd-gysylltu blaenoriaethau'r ysgol a datblygiad proffesiynol y staff â thargedau rheoli perfformiad yn llwyddiannus. Mae'n ymateb yn dda i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Er enghraifft, mae defnydd o'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol yn datblygu'n effeithiol, ac mae'r ysgol yn hybu lles a ffitrwydd disgyblion yn llwyddiannus.

Mae'r corff llywodraethol yn chwarae rhan allweddol wrth sicrhau cyfeiriad strategol clir i'r ysgol. Mae'r aelodau yn gefnogol iawn i waith yr ysgol, ac yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau yn effeithiol iawn. Mae'r cadeirydd yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i drafod darpariaeth a safonau gyda'r pennaeth a chynrychiolydd o'r awdurdod lleol. Mae llywodraethwyr yn ymgymryd â gweithgareddau monitro'n buddiol, gan gynnwys craffu ar lyfrau, trafod â staff a disgyblion yn ogystal ag arsylwi ar wersi. Mae ganddynt wybodaeth sicr am gryfderau'r ysgol a'r blaenoriaethau ar gyfer gwelliant. Mae hyn yn eu galluogi i herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn gryf.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae prosesau hunanarfarnu'r ysgol yn gadarn ac yn arwain yn glir at amlygu meysydd penodol i'w gwella yng nghynllun datblygu'r ysgol. Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gywir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae staff a llywodraethwyr yn cyfrannu'n effeithiol at y broses hunanarfarnu trwy fonitro gwersi, craffu ar waith disgyblion a dadansoddi data'n fanwl. Yn ddiweddar, mae athrawon wedi cydweithio'n llwyddiannus gyda dwy ysgol leol i graffu ar lyfrau ac arsylwi ar wersi ei gilydd. Mae hyn yn cryfhau eu dealltwriaeth o safonau disgyblion ac yn cefnogi'r broses hunanarfarnu yn effeithiol. Mae adroddiadau monitro yn ddadansoddol ac arfarnol, ac yn nodi'r cryfderau a'r meysydd sydd angen eu datblygu'n briodol. Rhoddir sylw da i farn staff, rhieni, llywodraethwyr a disgyblion fel rhan o'r broses. Mae'r gweithdrefnau hyn yn cyfrannu'n dda at yr adroddiad sy'n cynnig darlun clir a chywir o'r ysgol.

Mae cyswllt agos rhwng deilliannau'r adroddiad hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun gwella ysgol. Mae'r cynllun yn canolbwyntio'n glir ar wella darpariaeth a chodi safonau. Mae'n cynnwys nifer hylaw o flaenoriaethau, targedau mesuradwy a chyllidebau priodol. Mae'r cynllun yn sicrhau bod y staff a'r llywodraethwyr yn chwarae eu rhan yn dda trwy weithredu'r cynllun a monitro cynnydd yn effeithiol. Mae'r trefniadau monitro yn dangos bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd da yn erbyn blaenoriaethau'r cynllun blaenorol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol bartneriaethau llwyddiannus sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau a phrofiadau dysgu disgyblion. Mae'r berthynas gref rhwng yr ysgol a'r cartref yn sicrhau bod rhieni yn cymryd rôl weithredol yn addysg eu plant. Er enghraifft, mae'r ysgol yn cynnal nosweithiau cwricwlaidd er mwyn datblygu dealltwriaeth rhieni o strategaethau darllen. Caiff rhieni wybodaeth ddefnyddiol am gynnydd a thargedau eu plant yn rheolaidd. Mae'r gymdeithas rhieni ac athrawon yn cefnogi'r ysgol yn dda, trwy godi arian a phrynu adnoddau gwerthfawr. Er enghraifft, drwy gyfrannu at offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r ysgol yn ogystal â chyfrannu at gostau teithio ymweliadau addysgol, maent yn cyfoethogi dysgu'r disgyblion yn dda.

Mae'r berthynas effeithiol rhwng yr ysgol ac asiantaethau arbenigol allanol yn cefnogi'r staff i ddarparu ystod o raglenni gwerthfawr sy'n cefnogi disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn cydweithio'n llwyddiannus gyda swyddogion yr awdurdod lleol sy'n cefnogi'r ysgol yn effeithiol. Mae grŵp 'Ti a fi' ar gyfer plant cyn ysgol yn cwrdd am un prynhawn yr wythnos yn yr ysgol. Mae hyn yn sicrhau bod plant yn ymgartrefu'n fuan yn yr ysgol. Mae gan yr ysgol drefniadau cynhwysol wrth i ddisgyblion symud o flwyddyn 2 i 3 ac mae'n cynnig noson wybodaeth ar gyfer rhieni. Mae'r trefniadau pontio gyda'r ddwy ysgol uwchradd yn fuddiol ac yn sicrhau bod y disgyblion yn barod i symud ymlaen at y cam nesaf yn eu haddysg. Mae'r athrawon yn safoni a chymedroli gwaith y disgyblion yn effeithiol gydag ysgolion y clwstwr yn ogystal â dwy ysgol leol, sy'n cyfrannu'n dda at sicrhau cysondeb o ran cywirdeb asesiadau athrawon

Mae partneriaeth gadarn rhwng yr ysgol a'r gymuned leol, sy'n cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus. Enghraifft dda o hyn yw'r defnydd o awdur lleol i gynnal gweithdai ysgrifennu creadigol ar gyfer yr holl disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol yn rheoli'r holl adnoddau yn effeithiol. Mae gan yr ysgol lefel briodol o athrawon cymwys a chynorthwywyr sy'n cydweithio'n dda i gyflwyno'r cwricwlwm a chefnogi'r disgyblion. Mae cynorthwywyr dysgu yn defnyddio'u harbenigedd i gefnogi grwpiau penodol o ddisgyblion yn llwyddiannus, er enghraifft wrth gydweithio gyda'r adran iaith a lleferydd i weithredu rhaglenni penodol. Mae trefniadau addas ar gyfer cyfnodau cynllunio, paratoi ac asesu ar gyfer athrawon.

Mae'r prosesau trwyadl ar gyfer rheoli perfformiad yr holl staff yn arwain at bennu targedau gwerthfawr sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau gwella'r ysgol a'u datblygiad proffesiynol. Mae hyn yn cael dylanwad cadarnhaol ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Mae'r holl staff yn elwa o'r hyfforddiant sy'n deillio o'r trefniadau rheoli perfformiad hyn.

Mae’r ysgol yn cydweithio’n effeithiol gyda dwy ysgol leol i rannu profiadau ac arfer dda.  Mae’r staff yn elwa trwy weithio o fewn y cymunedau dysgu proffesiynol hyn, sy’n cyfrannu’n dda at gyfoethogi darpariaeth yr ysgol.  Enghraifft dda yw’r cydweithio i ddatblygu ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm o fewn y bartneriaeth.

Mae gan yr ysgol drefniadau cyllidebol trylwyr ac mae penderfyniadau gwariant yn cysylltu’n dda â blaenoriaethau ar gyfer gwella.  Mae’r pennaeth, swyddog gweinyddol yr awdurdod lleol a’r llywodraethwyr yn monitro ac yn rheoli’r cyllid yn ofalus.

Defnyddir y grant amddifadedd disgyblion yn effeithiol ar gyfer gwella medrau llythrennedd a rhifedd grwpiau penodol o ddisgyblion.  Maent hefyd yn cydweithio’n effeithiol gyda gwasanaeth cerdd yr awdurdod lleol i sicrhau gwersi offerynnol ar gyfer y disgyblion hyn.  O ganlyniad, mae’r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd cadarn yn erbyn eu targedau.

O ystyried safonau cyflawniad y disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

Mae llawer o garfanau bach iawn mewn llawer o'r blynyddoedd o ddata perfformiad y Cyfnod Sylfaen ar gyfer yr ysgol hon. Mewn achos felly, nid ydym yn cynnwys tabl data perfformiad.

**6672309 - YSGOL GYMUNEDOL LLANFIHANGEL-Y-CREUDDYN**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 27 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 16.9 | |
| Grŵp PYD | 3 | (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 5 | 8 | 3 | 6 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 1 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 5 | 8 | 3 | 6 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 60.0 | 37.5 | 100.0 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 1 | 1 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 5 | 8 | 3 | 6 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 40.0 | 25.0 | 100.0 | 33.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 1 | 3 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 5 | 8 | 3 | 6 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 40.0 | 50.0 | 100.0 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 1 | 1 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 5 | 8 | 3 | 6 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 40.0 | 50.0 | 100.0 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 1 | 1 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 16 | 16<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 16 | 16<br>100%<br>92% | 0<br>0%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 16 | 16<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 16 | 16<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 16 | 16<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 16 | 16<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 16 | 16<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 16 | 16<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 16 | 16<br>100%<br>91% | 0<br>0%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 16 | 16<br>100%<br>95% | 0<br>0%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 16 | 16<br>100%<br>77% | 0<br>0%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 16 | 16<br>100%<br>84% | 0<br>0%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i’r holiadur i rieni

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 18 | 15 | 3 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 83% | 17% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 18 | 17 | 1 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 94% | 6% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 18 | 17 | 1 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 94% | 6% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 18 | 15 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 83% | 17% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 35% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 18 | 15 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 83% | 17% | 0% | 0% | | |
| | | 47% | 48% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 18 | 15 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 83% | 17% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 18 | 15 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 83% | 17% | 0% | 0% | | |
| | | 64% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 18 | 12 | 6 | 0 | 0 | 0 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 67% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 49% | 43% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 18 | 15 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 83% | 17% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 18 | 15 | 3 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 83% | 17% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 18 | 16 | 2 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 89% | 11% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 32% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 18 | 14 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 78% | 22% | 0% | 0% | | |
| | | 55% | 39% | 4% | 1% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 18 | 16<br>89% | 2<br>11% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 18 | 16<br>89% | 2<br>11% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 18 | 12<br>67% | 6<br>33% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 48% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 18 | 14<br>78% | 4<br>22% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 58% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 15 | 14<br>93% | 1<br>7% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 18 | 15<br>83% | 3<br>17% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 54% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 18 | 16<br>89% | 2<br>11% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 34% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Kevin Davies | Arolygydd Cofnodol |
| Jeffrey Davies | Arolygydd Lleyg |
| Olwen Corben | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mair Gwynne Carruthers | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.